COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR AMCANION CYFFREDINOL A CHYNLLUNIO CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS FAWRTH, 18FED RHAGFYR 2018 AM 6.30 P.M.

YN BRESENNOL: Cynghorydd C. Brockley, (Is-Gadeirydd yn y Gadair) Cynghorwyr B. Barton, N. Bastow (Dirprwy Faer), G. Campbell, C. Matthews, J. Pearson (Warden Coed), M. Tasker, M. Worth,

SWYDDOG: Mrs C. Earley, Clerc y Dref

288/18 <u>Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:</u>

Yn absenoldeb y Cadeirydd, cymerwyd y Gadair gan y Cynghorydd C. Brockley (Is-Gadeirydd). Croesawyd yr Aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a chyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Mrs Glenys Baker (Cadeirydd), D. Bradley a Mrs M. Jones.

289/18 <u>Datgan Cysylltiadau:</u>

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu rai sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

290/18 <u>Cofnodion</u>:

Cyfeiriodd y Clerc at ddau ymholiad a dderbyniwyd ganddi parthed cofnodion drafft y cyfarfod diwethaf. Cysylltwyd â'r Cadeirydd ac fe gytunwyd i newid y geiriad drafft yng Nghofnod 268/18. Cyflwynwyd copi diwygiedig o'r Cofnodion gan y Clerc i gael eu hystyried a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor.

Dywedodd y Cynghorydd Barton ei fod ef hefyd yn amheus am gywirdeb Cofnod 266/18(b) - Parciau Cymunedol i Gŵn. Cadarnhawyd gan Aelodau'r Pwyllgor bod y Cofnod yn datgan yn gywir y penderfyniad fel yr oeddynt yn ei gofio. Fe nodwyd bod y mwyafrif wedi bod o'r farn y byddai'n rhy gynnar i gynnal cyfarfod cyhoeddus hyd nes bydd telerau'r cynnig wedi cael eu hesbonio gan Swyddog o'r Cyngor Sir. Yna gofynnodd y Cynghorydd Barton i'r bleidlais cael ei gofnodi.

Penderfynwyd, trwy fwyafrif o 7 O Blaid i 1 Yn Erbyn (O BLAID: Cynghorwyr C. Brockley, N. Bastow, G. Campbell, C. Matthews, J. Pearson, M. Tasker, M. Worth ac YN ERBYN: Cynghorydd B. Barton) i gymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 27ain Tachwedd 2018 a'u llofnodi i fod yn adroddiad cywir yn amodol ar newid bach i eiriad Cofnod 268/18.

291/18 <u>Materion yn Codi o Gofnodion Blaenorol:</u>

(a) Cofnod 265/18(e) – Dodrefn y Stryd:

Gofynnwyd i'r Clerc ceisio amcan brisiau am hysbysfwrdd newydd yn Tan Lan oherwydd bod cyflwr yr un presennol tu hwnt i gael ei drwsio'n economaidd.

(b) Cofnod 265/18(f) - Canllawiau Cynllunio Ychwanegol:

Fe nodwyd gan yr Aelodau bod James Harland wedi cynnig i ddod i annerch y Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio yn ei gyfarfod nesaf sydd i'w gynnal ar 15fed Ionawr 2019. Cyfeiriodd y Clerc hefyd at y cyfnod pan oedd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar yr adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) Conwy i ddechrau. Dywedodd efallai bydd Mr Harland yn barod i / yn gallu ateb unrhyw gwestiynau ar hyn yn y cyfarfod nesaf hefyd. Mynegwyd pryderon am y cyfnod ymgynghori o 6 wythnos, sy'n cynnwys cyfnod y Nadolig, pan fydd pob man ar gau. Cynigiwyd bod y Clerc i ysgrifennu at GBSC i ddweud nad yw'r cyfnod o chwe wythnos, yn cynnwys y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, yn ddigon o amser am ymgynghoriad cyhoeddus effeithiol. Ni chafodd y cynnig ei eilio ac ni phleidleisiwyd arno.

(c) Cofnod 266/18(b) – Parciau Cymunedol i Gŵn:

Fe nodwyd gan yr Aelodau bydd swyddog o Wasanaethau Rheoleiddio yn dod i annerch y Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio yn ei gyfarfod nesaf sydd i'w gynnal ar 15fed Ionawr 2019.

(ch) Cofnod 269/18 - Systemau Draenio Cynaliadwy (SUDs):

Cafwyd adroddiad byr ar lafar gan y Cynghorydd Jeff Pearson ar ôl iddo fynychu'r sesiwn hyfforddi arweiniol. Dywedodd wrth y Pwyllgor bydd yn angenrheidiol i bob cais cynllunio cael cynlluniau SUD o Ionawr 2019, (oni bai eu bod yn anheddau unigol). Fe obeithir y gellir annog datblygwyr i 'feddwl y tu allan i'r blwch', e.e. trwy ddarparu pistylloedd dŵr neu gasgenni dŵr i leihau effaith y datblygiad ar isadeiledd y draeniad dŵr arwyneb presennol (e.e. nentydd), yn arbennig ar adegau o law trwm / estynedig.

Penderfynwyd diolch i'r Cynghorydd J. Pearson am ei adroddiad a disgwyl am gopïau o sleidiau'r cyflwyniad yn y man.

292/18 <u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):</u>

Penderfynwyd derbyn a nodi'r ohebiaeth ganlynol oddi wrth GBSC:

a) Rhybudd am geisiadau am reoliadau traffig dros dro yn:
(i) Ffordd Coed Pella – 12fedRhagfyr 2018

b) Byw yn y Bae - adroddiad ar lafar gan y Clerc yn cadarnhau ei swyddogaeth newydd, aelodaeth a chylch gorchwyl Grŵp Swyddogion y Strategaeth.

(i) Diweddariad byr ynglŷn â chynnal a chadw offer chwarae: Fe nodwyd bod arian cyfatebol (grantiau) yn cael eu ceisio a bod CBSC wedi cael caniatâd i ddechrau defnyddio dyraniad ychwanegol o'r hyn a roddwyd ar gael gan y Cyngor Tref ar gyfer gwaith brys o gynnal a chadw offer chwarae.

293/18 <u>Gwefan:</u>

Rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar lafar am y prosiect i ddiweddaru gwefan y Cyngor. Fe nodwyd bod y mwyafrif o'r cynnwys ar y safle wedi cael ei adolygu a'i ddiweddaru erbyn hyn a'i fod yn barod i'w allforio i lwyfan sy'n fwy ymatebol. Ymddiheurodd y Cynghorydd Barton nad oedd wedi rhoi ei adroddiad cyn hyn a chyflwynodd diweddariad byr ar lafar. Gofynnodd am i adran ar geisiadau cynllunio cael ei ychwanegu at y wefan, gyda dolenni cyswllt at restr ceisiadau lleol y Pwyllgor ac / neu restr wythnosol CBSC. Fe nodwyd y gellid ystyried hyn ar ôl i'r safle cael ei allforio. Dywedodd y Cynghorydd Brockley wrth yr aelodau ei fod am wneud copi o'r safle er mwyn cael profi effaith yr allforio cyn ei symud i'r safle fyw. Yn amodol ar ganlyniad y profion hyn, cadarnhaodd bydd y safle yn cael ei allforio tros y Flwyddyn Newydd neu yn ystod hanner tymor Chwefror os oedd angen ymdrin â materion oedd angen penderfyniad cyn hyn.

294/18 <u>Cŵn yn Baeddu:</u>

(a) Gofynnwyd i'r eitem hwn ymddangos ar yr agenda gan y Cynghorydd G. Baker fel y gallai rhoi adroddiad i'r Aelodau. Oherwydd iddi orfod cyflwyno ymddiheuriadau, roedd yn gofyn i'r eitem cael ei ohirio tan y cyfarfod nesaf. Cyflwynodd y Cynghorydd G. Campbell adroddiad byr i gadarnhau bod y peiriant cyflenwi bagiau baw cŵn wedi cael ei osod yn Llandrillo yn Rhos a bod y trigolion wedi ei groesawu. Fe fwriedir gosod mwy yn y dyfodol.

(b) Derbyniwyd a nodwyd diweddariad gan Lianne Martin am yr ymgyrch Sbwriel a Baw Cŵn.

295/18 <u>Gohebiaeth Arall:</u>

Fe nodwyd bod yr eitemau canlynol o ohebiaeth ar gael gan y Clerc ar gais:

a. Chwarae Tros Gymru - Taflen newyddion Hydref 2018.
b. Cofnodion cyfarfod Cymdeithas Trigolion Hen Golwyn a gynhaliwyd ar 12fed Rhagfyr 2018.
c. Cymdeithas Cludiant Cymunedol – Cysylltu Cymunedau yng Nghymru – Taflen Newyddion Rhif 2 (Rhagfyr 2018).
ch Gwaith gan Dŵr Cymru yn Llandrillo yn Rhos – Cyflwynodd y Clerc diweddariad gan Jill Roberts ynghyd a nodiadau o'r cyfarfod a fynychwyd gan y Cynghorydd Baker, er gwybodaeth.

296/18 <u>Cynllunio</u>:

a Cyflwynodd y Clerc y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd oddi wrth GBS Conwy a welir yn Atodlen A sydd gyda hwn i gael eu hystyried.

Dywedodd y Cadeirydd bod y Maer wedi cysylltu ag ef, a gofyn iddo atgoffa'r Aelodau nad oedd yn angenrheidiol i'r Cyngor Tref rhoi sylwadau ar bob un cais cynllunio a gyflwynwyd, oni bai i'r trigolion lleol codi materion, neu fod aelodau'r ward lleol yn ymwybodol o bryderon penodol. Cadarnhaodd y Clerc mai swyddogaeth y Cyngor Tref yw cynrychioli sylwadau'r gymuned leol a byddai'r swyddogion cynllunio yn ymdrin â materion yn ymwneud a pholisïau'r Cynllun

Datblygu Lleol, er gellid defnyddio'r rhain i gryfhau unrhyw ddadl yn erbyn cais, yn ychwanegol i 'ystyriaethau priodol'.

- Datganodd y Cynghorydd C. Matthews cysylltiad personol ac un a all ragfarnu yng nghais 0/45776 gan Cartrefi Cymru. Cynigodd i adael y cyfarfod os oedd yr Aelodau yn dymuno trafod y cais hwn.

Penderfynwyd cyflwyno sylwadau ar y ceisiadau hyn fel y maent yn ymddangos yn yr Atodlen honno.

b ***Penderfynwyd derbyn a nodi'r Penderfyniadau Cynllunio a wnaed gan GBSC am y cyfnod 5/11/18 hyd at 2/12/18.***

c Ymweliad a Safleoedd Cynllunio – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:

Fe nodwyd bod y Cynghorydd Matthews wedi bod yn bresennol yn y cyfarfodydd ymweld â safleoedd cynllunio diweddar parthed ceisiadau O/45445 ac O/45618. Dywedodd bod y trigolion lleol wedi codi nifer o bryderon. Edrychodd y Clerc ar wefan CBSC ac fe nodwyd bod y ddau gais wedi derbyn cymeradwyaeth amodol.

ch Amnewid Cynllun Datblygu Lleol Conwy – Ymgynghoriad cyn Adneuo:

Fe nodwyd bydd hwn yn ymddangos ar agenda'r cyfarfod nesaf. Cyfeiriwyd at y dolenni cyswllt i'r papurau ymgynghori a thynnwyd sylw'r Aelodau at y digwyddiadau ymgynghori oedd i'w cynnal ar 8fed a'r 9fed Ionawr .

297/18 <u>Trwyddedau:</u>

Fe nodwyd nad oedd unrhyw geisiadau am drwyddedau yn ddiweddar ar gyfer ardal Bae Colwyn.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y farchnad Nadolig rhagorol a gynhaliwyd yn Hen Golwyn y penwythnos diwethaf.

Penderfynwyd anfon llythyr i longyfarch y Pwyllgor a drefnodd Marchnad Nadolig Hen Golwyn ar ei lwyddiant ysgubol.

Daeth y cyfarfod i ben am 8 pm

…… Cadeirydd

MINUTES OF A MEETING OF THE GENERAL PURPOSE AND PLANNING COMMITTEE OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD AT 6:30PM ON TUESDAY 18TH DECEMBER 2018, IN THE COMMITTEE ROOM, TOWN HALL, RHIW ROAD, COLWYN BAY

PRESENT: Cllr C Brockley, Vice Chairman
Cllrs: B Barton; N Bastow (Dep Mayor); G Campbell; C Matthews; J Pearson;
M Tasker; M Worth.

OFFICER: Mrs T Earley, Town Clerk

226/18 Welcome and Apologies for Absence:

In the absence of the Chair, Cllr C Brockley (Vice Chair) took the Chair. He Chairman welcomed members to the meeting and apologies for absence were received from Cllrs: G Baker (Chairman), D Bradley and M Jones.

227/18 Declarations of Interest:

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests. None were declared.

228/18 Minutes:

The Clerk informed members that she had received two queries in respect of the draft minutes of the last meeting. The Chairman had been contacted and had agreed to an amendment to the draft wording of Minute 268/18. A revised copy of the minutes was tabled by the Clerk for consideration and approval by the Committee.

Cllr Barton advised the Committee that he had also queried the accuracy of minute 266/18(b) – Community Dog Parks. Members of the committee confirmed that the minute correctly expressed the resolution, as they recalled it. It was noted that the majority had felt that it would be premature to call a public meeting until the terms of the proposal were clarified by an Officer of the County Council. Cllr Barton then requested a recorded vote:

Resolved, by a majority of 7 For, to 1 Against (IN FAVOUR: Cllrs C Brockley, N Bastow; G Campbell; C Matthews; J Pearson; M Tasker; M Worth and AGAINST: Cllr B Barton) to approve and sign, as a correct record, the minutes of the last meeting, held on 27th November 2018 subject to the minor amendment to the wording of minute 268/18.

229/18 Matters Arising from Previous Minutes:

a) **Min.265/18 (e) – Street Furniture**:

The Clerk was instructed to seek quotations for the replacement of Tan- Lan noticeboard, which it was noted was beyond economical repair.

b) **Min. 265/18(f) – Supplementary Planning Guidance:**

It was noted by members that James Harland had offered to address the Committee at the next GP&P Meeting, to be held on 15th January 2019. The Clerk also referred to the commencement of a period of public consultation in respect of the review of the Conwy LDP and advised that Mr Harland may also be willing/able to answer any questions about this at the next meeting. Concern was expressed over the 6-week consultation period, which includes the Christmas close-down. It was proposed that the Clerk writes to inform Conwy CBC that a six week period including Christmas and New Year is not sufficient time for effective public consultation. This was not seconded or voted upon.

c) **Min. 266/18(b) – Community Dog Parks**:

It was noted by members that an officer from Regulatory Services will be addressing the Committee at the next GP&P Meeting, to be held on 15th January 2019.

d) **Min 269/18 – Sustainable Drainage Systems (SUDs):**

Cllr Jeff Pearson gave a brief verbal report on the recent introductory training session he had attended. He informed the Committee that from January, all planning applications will need SUD plans (unless they are single dwellings). It is hoped that this will encourage developers to think outside of the box eg by providing fountains or water butts to restrict the impact of the development on existing surface water drainage infrastructure (e,g, streams), especially during periods of heavy/prolonged rain.

Resolved to thank Cllr Pearson for his report and to await a copy of the presentation slides in due course.

230/18 <u>Conwy CBC</u>:

Resolved to receive and note the following correspondence from CCBC:

a) Notice of requests for temporary traffic regulations at:
(i) Coed Pella Road – 12th December 2018.

b) Bay Life – A verbal report from the Clerk confirming the new role, membership and remit of the Strategic Officers' Group.

i) ***A brief update regarding play equipment maintenance: It was noted that nmatch-funding (grants) were being sought and that permission has been given for CCBC to commence using the additional allocation made available by the Town Council for urgent maintenance of play equipment.***

231/18 <u>Website</u>:

The Clerk gave a brief verbal report on the project to update the council website. It was noted that the majority of the content of the site had now been reviewed and updated and was ready to be migrated onto a new, more responsive platform. Cllr Barton apologised for not submitting his report yet and he gave a brief verbal update, requesting that a section on planning applications be added to the site, with links to the Committee's list of local applications and/or the CCBC weekly list. It was noted that this could be considered after the site has been migrated over. Cllr Brockley informed members that he would be taking a copy of the site to test the impact of the migration, before carrying it out for the live site. Subject to the outcome of these tests, he confirmed that the site would either be migrated over early in the New Year, or during February half term if there were issues that needed to be resolved first.

232/18 <u>Dog Fouling</u>:

(a) Cllr G Baker had asked that this item be placed on the agenda so that she could give a report to members. Having subsequently given her apologies, she requested that this matter be deferred to the next meeting. Cllr G Campbell gave a brief report, confirming that the dog poop bag dispensers had been installed in Rhos on Sea and had been well received by residents. There were plans to install more at a later date.

(b) An update from Lianne Martin on the Litter and Dog Fouling campaign was received and noted.

233/18 <u>Other Correspondence</u>:

It was noted that the following items are available on request from the Clerk:

a) Play for Wales – Autumn 2018 Newsletter.

b) OCRA Minutes if Meeting held on 12th December 2018.

c) Community Transport Association – Connecting communities in Wales Newsletter issue 2 (Dec 2018).

d) Welsh Water Works at Rhos on Sea – the Clerk tabled an update from Jill Roberts and notes of a meeting which Cllr Baker attended, for information.

234/18 <u>Planning</u>:

a) The Clerk submitted, for consideration, the planning applications received from CCBC, as detailed on Schedule 'A' attached.

The Chairman advised the Committee that the Mayor had contacted him and asked him to reiterate to members that it was not necessary for the Town Council to comment on every single planning application, unless there have been issues raised by local residents, or the local ward members were aware of any particular concerns. The Clerk confirmed that the role of the Town Council is to represent the views of the local community and that planning officers would be picking up on any matters relating to policies in

the LDP, though these could be used to strengthen any argument against an application, in addition to 'material considerations'.

- Cllr C Matthews declared a personal and prejudicial interest in application 0/45776 by Cartrefi Conwy. He offered to leave the room if members wished to discuss this application.

Resolved to submit observations on these applications, as detailed in that Schedule.

b) Resolved to receive a copy of the Planning Decisions issued by CCBC for the period 05/11/1 – 02/12/2018.

c)* Conwy CBC Planning Site Visit*:

It was noted that Cllr Matthews had attended the recent site visits in respect of applications 0/45445 and 0/45618. He reported that local residents had raised a number of concerns. The Clerk checked the reports on the CCBC website and it was noted that both applications had been approved, subject to conditions.

***d)* Conwy Replacement LDP – Pre-Deposit Participation:**

It was noted that this would be an agenda item for the next meeting. Links were given to the consultation papers and members noted the consultation events taking place on the 8th and 9th January.

235/18<u>Licensing</u>:

It was noted that there were no recent licensing applications lodged for the Bay of Colwyn area.

Members commented on the excellent Old Colwyn Christmas market, which had taken place last weekend.

Resolved to send a letter of congratulations to the organising committee of the Old Colwyn Christmas Market which it was felt had been a great success.

The meeting closed at 8 p.m.

……. Chairman